**SENEDD CYMRU : WELSH PARLIAMENT**
**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GWRW A'R DAFARN - CROSS PARTY GROUP ON BEER AND THE PUB**

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021/22 : Annual General Meeting 2021/2222**
**19 Ionawr 2022 : 19 January 2022 @ 1200**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Zoom, oherwydd pandemig y Coronafeirws.

<u>Yr Aelodau a oedd yn bresennol:</u>
Jack Sargeant (Cadeirydd) Carolyn Thomas, Llyr Gruffydd, Rhys ab Owen, James Evans, Joel James, Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges).

<u>Ymddiheuriadau'r Aelodau:</u>
Mike Hedges, Alun Davies, Sam Rowlands, Sam Kurtz, Peredur Owen Griffiths.

<u>Yn bresennol:</u>
John Pockett (Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y Bumed Senedd/Cynulliad).

Croesawodd Jack Sargeant bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod hysbysiad ynghylch y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i ddosbarthu'n briodol.

<u>Ethol Cadeirydd:</u>
Jack Sargeant, a gynigiwyd gan Carolyn Thomas ac a eiliwyd gan Rhys ab Owen, oedd yr unig enwebiad. Cafodd ei gadarnhau'n briodol, a chymerodd y gadair am weddill y cyfarfod.
<u>Ethol Is-gadeiryddion:</u>
Cynigiodd y Cadeirydd y dylid rhannu rôl yr Is-gadeirydd rhwng aelodau o bob grŵp plaid er mwyn sicrhau cyfranogiad trawsbleidiol llawn. Derbyniwyd hyn ac etholwyd Carolyn Thomas a Rhys ab Owen, gydag Is-gadeirydd o Grŵp y Ceidwadwyr i'w gadarnhau.
<u>Ethol Ysgrifennydd:</u>
John Pockett, a gynigiwyd gan Rhys ab Owen ac eiliwyd gan Carolyn Thomas, oedd yr unig enwebiad, ac fe'i etholwyd yn briodol.

Roedd cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf ar gael ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol ers mis Hydref 2020.

Nododd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd gynigion ar gyfer tri digwyddiad yn ystod y flwyddyn i ddod – ymweliad â bragdy, sesiwn blasu cwrw Cymreig, a chinio gyda'r Gweinidog yn brif westai. Mae trafodaethau rhagarweiniol wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn San Steffan ynghylch y cynigion hyn.

Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn cyfarfod â chynrychiolwyr y Grŵp Seneddol Hollbleidiol, Clwstwr Cyrfau Cymru, SIBA a CAMRA i sicrhau eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad.

Tynnodd Rhys ab Owen sylw at yr ansicrwydd ynghylch dyfodol S A Brain, bragdy mwyaf Cymru. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu'n ffurfiol at yr uwch reolwyr yn S A Brain i geisio sicrhau eglurder.

Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol yn cael ei gadarnhau, yn dibynnu ar y pandemig.

Daeth y trafodion i ben am 1230.

JACK SARGEANT AS : MS
Cadeirydd : Chair

JOHN POCKETT
Ysgrifennydd : Secretary